

**GALW AM...  
CALL FOR...**

**HYR WYDDWYR  
CELFYDDYDAU!**



**ARTS  
CHAMPIONS!**

**RHWYDWAITH CELFYDDYDAU AC. ADDYSG: GOGLEDO CYMRU  
ARTS AND EDUCATION NETWORK: NORTH WALES**

  
Cynor Celfyddydau Cymru  
Arts Council of Wales

  
Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# GALW AM HYRWYDDWYR CEFYDDYDAU

Dyma alwad am **ATHRAWON AC YMARFERWYR CELFYDDYDOL** sy'n angerddol am y celfyddydau mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ac sy'n agored i ehangu eu dealltwriaeth am ddysgu creadigol er mwyn dod yn esiamplau ysbrydoledig a chefnogol i bobl eraill.

Mae Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg Gogledd Cymru yn chwilio am **12 o HYRWYDDWYR CELFYDDYDAU YSBRYDOLEDIG** ar gyfer y rhwydwaith rhanbarthol newydd mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru fel rhan o *Dysgu Creadigol Drwy'r Celfyddydau - cynllun gweithredu i Gymru*.

## AI CHI YW HWN? A OES GENNYCH CHI DDIDDORDEB?

Manylion pellach a sut i ymgeisio:  
[www.datrys.uk/artschampion](http://www.datrys.uk/artschampion)

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau:  
**28 Medi 2016**

## SUT I GYSYLLTU

SIR DDINBYCH, SIR Y FFLINT, SIR WRECSAM  
[iwan@datrys.uk](mailto:iwan@datrys.uk) // 07449 797614

CONWY, GWYNEDD, YNYS MÔN  
[marilloyd@me.com](mailto:marilloyd@me.com) // 07984 586 857

# CALL FOR ARTS CHAMPIONS!



This is a call out for **TEACHERS AND ARTS PRACTITIONERS** who are passionate about the arts in primary and secondary schools and are open to expanding their understanding of creative learning in order to become inspiring and supportive role models for others.

The Arts and Education Network: North Wales is seeking **12 INSPIRATIONAL ARTS CHAMPIONS** for the new regional network in partnership with The Welsh Government and Arts Council Wales as part of *Creative learning through the Arts – an action plan for Wales*.

## IS THIS YOU? ARE YOU INTERESTED?

Further information and how to apply:  
[www.datrys.uk/artschampion](http://www.datrys.uk/artschampion)

Closing date for applications:  
**28 September 2016**

## HOW TO GET IN TOUCH

DENBIGHSHIRE, FLINTSHIRE, WREXHAM  
[iwan@datrys.uk](mailto:iwan@datrys.uk) // 07449 797614

CONWY, GWYNEDD, ANGLESEY  
[marilloyd@me.com](mailto:marilloyd@me.com) // 07984 586 857

# **GWYBODAETH BELLACH**

---

# 1. CYFLWYNIAD

Mae **Rhwydwaith Celfyddydau & Addysg : Gogledd Cymru** yn chwilio am **12 o Hyrwyddwyr Celfyddydau Lleol** ar gyfer y rhwydwaith rhanbarthol newydd mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru fel rhan o *Dysgu Creadigol Drwy'r Celfyddydau - cynllun gweithredu i Gymru*.

## Y Rhwydwaith Celfyddydau ac Addysg

Rôl y rhwydwaith yw cynyddu a gwella profiadau a chyfleoedd celfyddydol mewn ysgolion drwy greu cysylltiadau rhwng:

- athrawon
- addysgwyr a phartneriaid o'r sector addysg
- ymarferwyr celfyddydol
- sefydliadau a lleoliadau celfyddydol
- sefydliadau a lleoliadau diwylliannol a threftadaeth (megis amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau)
- darparwyr celfyddydol awdurdodau lleol yn cynnwys gwasanaethau cerdd;
- partneriaid celfyddydol a diwylliannol addysg uwch;
- sector y diwydiannau creadigol

Un o bum prif dasg y rhwydwaith yw i greu cynllun Hyrwyddwyr Celfyddydau Lleol. Nodi y pum tasg fel y diffinnir gan Gyngor Celfyddydau Cymru isod, sef:

1. Trefnu rhaglen o ddatblygiad proffesiynol parhaus o safon uchel ar gyfer athrawon, artistiaid, sefydliadau celfyddydol a diwylliannol.
2. Sefydlu a chydlynu cyfleoedd rhwydweithio ar gyfer athrawon, artistiaid a sefydliadau o'r sectorau celfyddydol, creadigol, diwylliannol a threftadaeth - yn ddigidol ac wyneb yn wyneb.
3. Cysylltu ysgolion ag artistiaid a sefydliadau celfyddydol – gweithredu fel 'brocer'.
4. Casglu gwybodaeth ar y 'cynnig' rhanbarthol a chyhoeddi enghreifftiau o arferion gorau.
5. Cyflwyno cynllun Hyrwyddwyr Celfyddydau Lleol.

## Trosolwg o'r rhaglen Hyrwyddwyr Celfyddydau Lleol

Rydym yn chwilio am Hyrwyddwyr Celfyddydau Lleol sy'n addysgwyr profiadol ym maes y celfyddydau mewn addysg gynradd neu uwchradd, unai'n athro cymwys neu'n ymarferydd celfyddydol profiadol sy'n barod i rannu ei sgiliau, profiad, arbenigedd a brwdfrydedd ag athrawon ac ysgolion eraill, ac ymgymryd â rôl o eiriolwyr cyhoeddus o addysg gelfyddydol a chreadigol.

Bydd y rhwydwaith yn ariannu costau'r ysgolion i ryddhau'r Hyrwyddwyr a fydd yn treulio cyfnodau byr o amser o fewn y flwyddyn academiaidd yn hyrwyddo arferion gorau, hyfforddiant, cefnogi eraill i fabwysiadau dulliau tebyg, neu ddod ag eraill i mewn i'w hysgol i arsylwi a dysgu.

Mae'r rôl yma hefyd yn cynnwys elfen o ddyletswydd ymgynghorol o fewn y rhwydwaith yn gyffredinol.

## 2. BETH YW HYRWYDDWR CELFYDDYDAU?

---

### Yr Egwyddorion

Mae Hyrwyddwr Celfyddydau Lleol yn cefnogi, annog ac ysbrydoli addysgwyr a dysgwyr i ystyried y celfyddydau fel modd i gyfoethogi eu profiadau dysgu. Bydd Hyrwyddwr Celfyddydau Lleol yn darparu arweiniad ac anogaeth i addysgwr a dysgwr i edrych a chymryd rhan mewn creadigrwydd mewn modd cadarnhaol.

### Beth fydd Hyrwyddwr Celfyddydau Lleol yn ei wneud?

- Hyrwyddo a rhannu arferion gorau
- Darparu hyfforddiant
- Cynnig cefnogaeth
- Bod yn esiampl positif i gyfoedion drwy arsylwi gwersi
- Rhoi cipolwg i'r rhwydwaith o'r hyn sy'n digwydd mewn ysgolion a'r celfyddydau yn ogystal a chynnig arweiniad a chyngor am anghenion hyfforddiant.

### Mae angen i Hyrwyddwr Celfyddydau Lleol ddangos:

- Ymrwymiad cryf at addysgu/dysgu Creadigol.
- Dangos ei fod yn unigolyn ysbrydoledig â sgiliau rhyngpersonol cryf.
- Parod i weithredu fel esiampl ar gyfer athrawon a dysgwyr.
- Angen dangos tystiolaeth o waith eithriadol y mae wedi'i wneud mewn amgylchedd dysgu.
- Ymrwymiad at ddatblygiad proffesiynol.
- Parodrwydd i ddatblygu ei allu i ddylanwadu a grymuso eraill i ragori.

### Pa rinweddau eraill sydd ei angen?

- Mae gallu sgwrsio ac ysgrifennu'n ddwyieithog yn ddymunol.
- Gwiriad DBS diweddar ac aelodaeth o Gyngor y Gweithlu Addysg.

## Faint o amser fydd bod yn Hyrwyddwr Celfyddydau Lleol yn ei gymryd fesul blwyddyn academiaidd?

- Cyfanswm o 10 diwrnod (gellir ei rannu'n hanner diwrnodau fel sy'n berthnasol i'r gweithgaredd/rhwydwaith).
  - 1 x diwrnod o hyfforddiant
  - 8 x diwrnod yn cefnogi cyfoedion
  - 1 x ddiwrnod yn cynghori'r rhwydwaith

## Ysgwyddo'r gost

### Athrawon

Bydd y rhwydwaith yn **ysgwyddo'r gost** am ryddhau athro o'r ysgol, gan alluogi'r ysgol i gyflogi athro llanw.

### Ymarferwyr Celfyddydau

Bydd y rhwydwaith yn talu am yr amser bydd ymarferydd celfyddydol yn ei dreulio yn cymryd rhan yng nghynllun Hyrwyddwr Celfyddydau Lleol.

## Hyfforddiant

Gofynnir i Hyrwyddwyr Celfyddydau Lleol fynychu hyfforddiant cychwynnol wedi'i drefnu a'i ariannu gan y rhwydwaith. Bydd hyn yn paratoi tîm Hyrwyddwyr Celfyddydau Lleol i ymgyswrtu eu hunain â chyd-destun y *Dysgu Creadigol Drwy'r Celfyddydau - cynllun gweithredu i Gymru*; cael ysbrydoliaeth gan arbenigwyr yn y maes; a rhannu syniadau a dechrau cynllunio ymlaen fel tîm.

# 3. SUT I WNEUD CAIS

Os oes diddordeb ganddo chi, gofynnwn yn garedig i chi anfon y canlynol atom ar ebost at y cysylltiadau isod:

1. C.V cyfredol
2. Llythyr yn amlinellu pam yr hoffech ymgymeryd â'r rôl.
3. Manylion gan ddau ganolwr sy'n gallu tystio dros eich gwaith/prosiectau mewn lleoliad addysgol.
4. Esiamplau o waith yr hoffech ei rannu â ni, sy'n berthnasol at yr hanfod o ddod yn Hyrwyddwr Celfyddydau Lleol. Croeso i chi rannu dolenni gwe.
5. **Athrawon** - Cynnwys llythyr o gymeradwyaeth gan y Pennaeth.
6. **Ymarferydd celfyddydol** - Cynnwys llythyr o gymeradwyaeth gan ysgol y bu'n gweithio ar brosiectau creadigol yno.

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 28 Medi 2016**

## Lle i yrru eich cais

**Os yn gweithio yn Ynys Mon, Gwynedd neu Conwy:**

marilloyd@me.com

**Os yn gweithio yn Sir Ddinbych, Sir Y Fflint neu Sir Wrecsam:**

iwan@datrys.uk



## 4. Y CAMAU NESAF

---

- 28ain Medi - Dyddiad cau
- 30ain Medi - Erbyn diwedd y dydd bydd y rhwydwaith yn gadael i chi wybod os yr ydych wedi eich dewis i gael cyfweiliad
- 6ed Hydref - Cyfweiliadau ym Mangor
- 7fed Hydref - Cyfweiliadau yn Yr Wyddgug
- 10fed Hydref - Gadael i chi wybod os yr ydych wedi bod yn llwyddiannus
- 21ain Hydref - Diwrnod Hyfforddiant Hyrwyddwyr Celfyddydau

Bydd y cytundeb i ddechrau o Hydref 21ain 2016 am gyfnod o flwyddyn.

## 5. CYSWLLT

---

### **Gwynedd, Môn & Conwy**

Mari Lloyd Pritchard | marilloyd@me.com | 07984 586 857

### **Sir Ddinbych, Sir Y Fflint & Wrecsam**

Iwan Glyn Williams | iwan@datrys.uk | 07449 797614

[www.datrys.uk/artschampion](http://www.datrys.uk/artschampion)

# ATODIAD 1 GWYBODAETH I YSGOLION

## Pam ddylech gynnig i aelod o staff ddod yn Hyrwyddwr Celfyddydau Lleol?

Mae nifer o fanteision i aelod o staff yn eich ysgol chi i ddod yn Hyrwyddwr Celfyddydau Lleol, yn cynnwys:

- Bod yn rhan hanfodol o *Dysgu Creadigol Drwy'r Celfyddydau - cynllun gweithredu i Gymru*;
- Gwell paratoad wrth ymgeisio ar gyfer y cwricwlwm newydd;
- Ehangu gwybodaeth a phrofiad yr athro unigol ac felly'r ysgol;
- Dod â syniadau newydd i'r ysgol;
- Syniadau newydd yn cysylltu â chynllun gwella'r ysgol;
- Darparu hyfforddiant mewnol ar gyfer eich ysgol;
- Bydd yr ysgol wedi'i chysylltu'n gryf â chymuned 'Hyrwyddwr Celfyddydau Lleol';
- Gwella gyrfa a rhoi hwb i hyder yr athro;
- Ysgwyddo'r gost. Mae'r holl fanteision uchod ar gyfer eich ysgol am ddim.

## A fydd eich ysgol ar ei hennill drwy gael cymorth gan Hyrwyddwr Celfyddydau Lleol?

- Cefnogaeth i'r ysgol wrth baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd
- Gwella gweithgarwch dysgu creadigol yn yr ysgol
- Cyfle i athrawon gael datblygiad proffesiynol parhaus wrth fynd i'r afael â'r swydd
- Cysylltu gweithgarwch at gynllun gwella'r ysgol
- Gwella sgiliau drwy ddarparu profiad o lygad y ffynnon am fforymau celf o safon mewn ystafell ddosbarth
- Ariennir cynllun Hyrwyddwr Celfyddydau Lleol'n llawn *ac ni fydd unrhyw gost* i'r ysgol, yn cynnwys talu am athro llanw